**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

**Dyddiad:** Dydd Mercher, 27 Mehefin 2001

**Amser:** 2.00 tan 5.00 pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**DOGFEN YMGYNGHORI DDRAFFT AR DDIOGELWCH FFYRDD**

**"FFYRDD DIOGEL, CYMUNEDAU DIOGEL"**

**Diben**

1. Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor am y datblygiadau mewn perthynas â’r ddogfen ymgynghori ddrafft "Ffyrdd Diogel, Cymunedau Diogel", a amgaeir yn Atodiad 1, yn dilyn y Gynhadledd Ymgynghori ar 15 Mai.

**Crynodeb/Argymhellion**

2. Ystyriodd y Pwyllgor y papur ymgynghori drafft ar 4 Ebrill pan wnaed nifer o sylwadau ac awgrymiadau defnyddiol gan yr aelodau. Newidiwyd y ddogfen ddrafft wedi hynny a chafodd ei hystyried yn y Gynhadledd. Ceir crynodeb o’r Gynhadledd yn Atodiad 2.

**Amseru**

3. Mae’r Strategaeth yn cael ei chaboli ar hyn o bryd a bydd yn cynnwys yr argymhellion a wnaed yn ystod y Gynhadledd. Gan ymgynghori â’r

Bwrdd Strategaeth Diogelwch Ffyrdd, bydd yn cael ei chyhoeddi at ddibenion ymgynghori â’r cyhoedd yn nes ymlaen yn ystod yr haf.

**Y Cefndir**

4. Yn GwellCymru, nodir bod ‘Gwella diogelwch ar y ffyrdd trwy gyfrwng ein Strategaeth Diogelwch Ffyrdd newydd a datblygu cymunedau mwy diogel’ y flaenoriaeth.

5. Y llynedd, cyhoeddodd y Llywodraeth "Tomorrow’s Roads, Safer for Everyone" – strategaeth diogelwch ffyrdd ar gyfer y DU, sy’n cynnwys targedau ymestynnol o ran damweiniau ar gyfer 2010. Mae’r targedau hyn yn cynnwys gostyngiad o 40% yn nifer y bobl sy’n cael eu lladd neu eu hanafu’n ddifrifol, a gostyngiad o 50% yn nifer y plant sy’n cael eu lladd neu eu hanafu’n ddifrifol o’i gymharu â chanol y nawdegau.

6. Ym mis Medi 2000, cytunodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd y dylid creu Bwrdd Strategaeth Diogelwch Ffyrdd, i oruchwylio’r gwaith o ddrafftio cynllun gweithredu i Gymru a allai wireddu’r targedau ymestynnol ar gyfer 2010. Mae’r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr o Gyfarwyddiaeth Trafnidiaeth y Cynulliad, swyddogion diogelwch ffyrdd a pheirianwyr priffyrdd o’r awdurdodau lleol, Sustrans, Cyfeillion y Ddaear, buddiannau iechyd ac ymgynghorydd cynllunio cymunedau.

7. Y nod yw dyfeisio rhaglen ymarferol, wedi’u blaenoriaethu, mewn

partneriaeth â'r awdurdodau lleol, yr heddluoedd, a'r holl gyrff a'r unigolion sydd â chyfrifoldeb dros ddiogelwch ffyrdd. Y cam cyntaf yn y broses hon oedd cynnal Cynhadledd Ymgynghori yn Llandrindod ar 15 Mai.

**Cydymffurfio**

8. Trosglwyddodd y Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau A39(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 i'r Cynulliad. Mae'r Adran hon yn rhoi'r per i hyrwyddo diogelwch ffyrdd ac mae'n cael ei harfer ar y cyd gan y Cynulliad a'r Ysgrifennydd Gwladol. Fe'i dirprwywyd i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd. Daw unrhyw wariant sy'n deillio o'r Strategaeth o dan A85 o Ddeddf Llywodraeth Cymru (a arferir ar y cyd â Deddf 1988).

**Goblygiadau Ariannol**

9. Mae darpariaeth ar gyfer costau'r gwaith o baratoi'r strategaeth ddrafft a chostau'r gynhadledd ymgynghori yn y cyllidebau presennol ac arfaethedig ar gyfer costau gweinyddu. Bydd unrhyw wariant sy'n codi o'r cynigion yn y Strategaeth derfynol ar Ddiogelwch Fyrdd yn dod o'r cyllidebau a gymeradwyir gan y Cynulliad.

**Themâu Trawsbynciol**

10. Mae'r drafft wedi'i llunio yng nghyd-destun cynllun datblygu cynaliadwy y Cynulliad a'i ymrwymiad i fynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol a

chyfle cyfartal.

**Camau i'w Cymryd gan Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth**

11. Ystyried adroddiad y Gynhadledd ar y cyd â'r Drafft Ymgynghori

"Ffyrdd Diogel, Cymunedau Diogel", a chynnig unrhyw sylwadau

pellach cyn rhoi'r Strategaeth ar ei gwedd derfynol at ddibenion

ymgynghori.

**Swyddog Cyswllt**

Meryl James, Is-Adran Polisi Trafnidiaeth, est. 6502

Meryl.james@wales.gsi.gov.uk

**CRYNODEB O'R GYNHADLEDD YMGYNGHORI AR DDIOGELWCH FFYRDD A GYNHALIWYD YN LLANDRINDOD AR 15 MAI 2001**

*Y Cefndir*

Cynhaliwyd y Gynhadledd er mwyn dod â'r prif bartïon sydd â diddordeb mewn diogelwch ffyrdd yng Nghymru ynghyd i drafod y Ddogfen Ymgynghori arfaethedig er mwyn paratoi ar gyfer proses llawn ac eang o ymgynghori â'r cyhoedd.

*Y Cynrychiolwyr*

Yr oedd dros 100 o bobl yn y Gynhadledd, a mwyafrif y cynrychiolwyr yn dod o'r awdurdodau lleol a'r heddluoedd. Yr oedd croestoriad o ddisgyblaethau'n bresennol, gan gynnwys swyddogion diogelwch ffyrdd, staff rheoli traffig a chynrychiolwyr etholedig. Siomedig oedd ymateb y grwpiau adfywio cymunedau, er bod nifer da o grwpiau gwirfoddol yno, gan gynnwys y Cerddwyr, Cymdeithas Ceffylau Prydain, Cydweithio ar Atal Damweiniau a Rheoli Anafiadau,

Clwb Teithio y Beicwyr, y Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol, Cyfeillion y Ddaear a Sustrans.

*Y Rhaglen*

Cadeiriwyd y Gynhadledd gan Robin Shaw ac yr oedd yn cynnwys dau gyflwyniad. Amlinellwyd rôl Ymgyrch Diogelwch Ffyrdd yr Alban, a'r gwaith a oedd ar droed, gan Fiona Murray, y Cyfarwyddwr, ac edrychodd Richard Brunstrom, Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru, ar rôl yr Heddlu o ran diogelwch ffyrdd, ac ar yr amryfal fentrau a oedd ar y gweill.

Mewn fforwm agored yn ystod y bore, cafodd y cynrychiolwyr gyfle i wyntyllu materion sy'n ymwneud â diogelwch ffyrdd yng Nghymru. Yn ddiddorol, grwpiau'r sector gwirfoddol chwaraeodd y rhan fwyaf blaenllaw yn ystod y fforwm, a dim ond un o gynrychiolwyr yr awdurdodau lleol ofynnodd gwestiwn.

*Y Gweithdai*

Cynhaliwyd chwe gweithdy yn ystod y bore a'r prynhawn, gan ganolbwyntio ar y penawdau yn y Strategaeth ddrafft. Ceir crynodeb o'r prif bwyntiau trafod isod:

<u>Atebion ym maes cynllunio'r amgylchedd:</u>

i. Diogelwch ffyrdd ac adfywio cymunedau – ystyriodd y grwpiau sut y gellid mynd ati i annog cymunedau lleol i wella'r amgylchedd, gan edrych ar feysydd lle yr oedd gwrthdaro, a chan awgrymu atebion. Edrychwyd ar fanteision roi rhan i'r cymunedau yn y broses hon, ond gan gydnabod yr anawsterau sy'n codi wrth geisio cael pob corff i weithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau newid. Awgrymwyd y gellid edrych ar enghreifftiau o'r arferion gorau sydd i'w gweld ar hyn o bryd er mwyn dod o hyd i atebion posibl ar gyfer Cymru. Cyffyrddwyd hefyd â pharthau cartref, er bod yr ail weithdy wedi edrych yn fanylach ar y rhain.

ii. Parthau 20myh a pharthau cartref – ystyriwyd y materion sy'n gysylltiedig â chyflwyno parth cartref, sut y gellid ei gyflwyno, ymhle, a phwy allai helpu yn hyn o beth. Ystyriwyd bod parthau cartref a pharthau 20myh yn rhan o ddull holistig o weithredu, efallai mewn ardaloedd lle ceir amddifadedd cymdeithasol, neu fel rhan o strategaethau diogelwch yn y gymuned.

<u>Atebion ym maes perianneg</u>

iii. Problemau ac atebion mewn ardaloedd trefol a gwledig – gwyntyllwyd syniadau am feini prawf y gellid eu defnyddio i raddio cynlluniau diogelwch ac i asesu cynlluniau. Tynnwyd sylw gan y grwpiau hefyd at yr amgyffred sydd gan bobl o'r risg, sy'n fater o bwys, yn arbennig felly o ran blaenoriaethau yn y cymunedau. Edrychwyd ar sut y gallai cymunedau lleol chwarae rhan mewn datblygu strategaethau diogelwch ffyrdd, ac ymhlith eu casgliadau, teimlwyd ei bod yn bwysig bod cymunedau yn nodi'r problemau ac yn cael dweud eu dweud am yr achosion a'r

atebion. Ystyriwyd hefyd ffyrdd o sicrhau gwelliannau cyffredinol o ran diogelwch ffyrdd, ac yr oedd yr angen i gynnal bywyd y pentrefi, tra'n lleihau traffig, yn fater pwysig.

Addysg, cyhoeddusrwydd ac anogaeth

iv. Trefnu gweithgarwch mewn ysgolion ar ddiogelwch ffyrdd – edrychwyd ar enghreifftiau o'r arferion gorau y gellid eu defnyddio ledled Cymru, ynghyd â sut i annog rhieni/plant o grwpiau sydd o dan anfantais i gymryd rhan. Barnwyd bod profiad swyddogion diogelwch ffyrdd yn hynod werthfawr. Edrychwyd hefyd ar addysg ar ddiogelwch ffyrdd yn y cwricwlwm ac ystyriwyd atebion posibl er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei derbyn yn fwy eang yn yr ysgolion.

v. Annog ymddygiad da ymhlith gyrwyr – ystyriwyd effeithiau'r ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd presennol, cymhellion posibl i annog ymddygiad da ymhlith gyrwyr (ee. gostwng premiymau yswiriant), defnyddio straeon gan bobl go iawn, portreadu pobl a oedd wedi bod mewn damweiniau, etc. Edrychwyd ar annog diogelwch, arferion gyrru da a chynnal a chadw cerbydau'n briodol ar lefel y gweithle, ynghyd ag edrych ar ba gyrff a allai chware rhan wrth annog ymddygiad da ymhlith gyrwyr.

Camau Gorfodi

vi. Cysylltu camau gorfodi â chamau eraill i sicrhau diogelwch ffyrdd – edrychwyd ar dargedu'r gwaith o orfodi cyfyngiadau cyflymder, monitro effeithiolrwydd a safonau cerbydau. Ymhlith y casgliadau, dylai'r cyhoedd fod yn gadarn o blaid gorfodi cyfyngiadau cyflymder, a dylai goryrru fod mor annerbyniol yn gymdeithasol â gyrru ac yfed, er enghraifft; cysylltu'r camau gorfodi ag addysg a chyhoeddusrwydd; angen mynd i'r afael â phroblem safonau cerbydau; pwysigrwydd cyflwyno Cymru unedig mewn ymgyrchoedd gorfodi. Yr oedd yn bwysig ein bod yn edrych ar ymdrechion yn y tymor hir, yn hytrach nag ar atebion byrhoedlog.

*Casgliadau*

Barn gyffredinol y cynrychiolwyr oedd nad oedd angen newid y strategaeth ddrafft yn sylweddol cyn mynd ati i ymgynghori â'r cyhoedd. Er hynny, yr oedd lle i gynnwys mwy o fanylion am archwiliadau ar ddiogelwch plant ar y ffyrdd, parthau cartref, parthau 20myh a chyfyngiadau 20myh, canlyniadau prosiect Partneriaeth Ariannu Camerâu De Cymru, ac enghreifftiau o'r arferion gorau yng Nghymru.

Dywedodd y cynrychiolwyr fod y Gynhadledd yn fuddiol iawn o ran trafod cynigion ynghylch diogelwch ffyrdd. Hwn hefyd oedd y tro cyntaf i groestoriad mor eang o ymarferwyr diogelwch ffyrdd gyfarfod â'i gilydd, ac yr oedd hynny yn hynod werthfawr ynddo'i hyn.